OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1166

# Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022

**Deddf Cyfraith Teulu 1996**

**24.**—(1) Mae Deddf Cyfraith Teulu 1996(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 30(**2**) (hawliau sy'n ymwneud â chartref pan nad oes gan un briod neu bartner sifil unrhyw ystad etc.) yn is-adran (4)(b)—

(a) ar ôl "Chapter 1 of Part 5 of the Housing Act 1996", rhodder "," yn lle "and";

(b) ar ôl "the Prevention of Social Housing Fraud Act 2013", mewnosoder "and the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1)".

(3) Yn Atodlen 7 (trosglwyddo tenantiaethau penodol ar ôl ysgaru etc. neu ar ôl i'r cwpwl sy'n cyd-fyw wahanu)—

(a) ym mharagraff 1(**3**) (dehongli), yn y diffiniad o "a relevant tenancy"—

(i) ar ddiwedd paragraff (d), hepgorer "or";

(ii) ar ddiwedd paragraff (e), mewnosoder "or";

(iii) ar ôl paragraff (e), mewnosoder—

"(f) an occupation contract within the meaning of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) (see section 7).";

(b) ym mharagraff 7(**4**) (tenantiaeth warchodedig, ddiogel neu sicr neu feddiannaeth amaethyddol sicr)—

(i) yn is-baragraff (1)—

(aa) ar ôl "Part 1 of the Housing Act 1988", yn lle "or", rhodder ",";

(bb) ar ôl "Chapter 1 of Part V of the Housing Act 1996", mewnosoder "or an occupation contract within the meaning of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) (see section 7)";

(ii) ar ôl is-baragraff (6), mewnosoder—

"(7) If the spouse, civil partner or cohabitant so entitled is a priority successor within the meaning of section 75 of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1)—

(a) the former spouse (or, in the case of judicial separation, the spouse),

(**1**) 1996 p. 27.

(**2**) Diwygiwyd adran 30 gan adran 82 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) a pharagraff 1 o Ran 1 o Atodlen 9 iddi, erthygl 2 o Orchymyn Deddf Tai 1996 (Diwygiadau Canlyniadol) 1997 (O.S. 1997/74) a pharagraff 10 o Atodlen 1 iddo, ac adran 10 o Ddeddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 (p. 3) a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddi.

(**3**) Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 7 gan adran 82 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) a pharagraff 16 o Ran 1 o Atodlen 9 iddi, adran 17(6) o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) a pharagraffau 129 a 145 o Ran 1 o Atodlen 11 iddi, ac erthygl 2 o Orchymyn Deddf Tai 1996 (Diwygiadau Canlyniadol) 1997 (O.S. 1997/74) a pharagraff 10 o'r Atodlen iddo.

(**4**) Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 7 gan baragraff 16 o Atodlen 9 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ac erthygl 2 o Orchymyn Deddf Tai 1996 (Diwygiadau Canlyniadol) 1997 (O.S. 1997/74) a pharagraff 10 o Atodlen 1 iddo.

(b) the former civil partner (or, if a separation order is in force, the civil partner), or

(c) the former cohabitant,

of the priority successor is to be deemed also to be a successor within the meaning of that section."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 24 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022, Adran 24 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 27 Awst 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

– reg. 25(4)(b)reg. 25(4)(c)(i)(d)(5)(6)(9)-(11) coming into force by S.I. 2022/1166 reg. 1(3)-(9)